| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024** |
| | Cystadleuaeth 76 – Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4 |
| | **Eisteddfod yr Urdd, Alys Jones** |

**** Angen hepgor yr ail bennill ****

Ymarfer, ymarfer, ymarfer!
Mae'n wythnos cyn 'Steddfod yr Urdd.
Mae'r holl fyd a phopeth sydd ynddo
'Di troi'n lliwiau coch, gwyn a gwyrdd.

**Dw i'n falch 'mod i wedi mynd trwodd
I'r ffeinal', fel dywed tad-cu,
Ond mae wedi mynd dros ben llestri,
Braidd, yr wythnos hon yn tŷ ni.

Mae'r ffariar a'r postmon a'r plismon
I gyd 'di cael  gwadd gan fy mam
Am baned, i 'nghlywed i'n canu,
A Janet a Jini a Sam.

Mae'r bwji yn gwybod y geiriau,
Mae'r ci'n medru hymian y gân,
A Dad, yn ei gwsg, yn ei chanu
Mewn llais rhywbeth tebyg i frân.

Mae'n siŵr bydd o'n werth yr ymarfer,
Ymarfer, ymarfer o hyd
Pan gerddaf i fyny i'r llwyfan,
Y cyntaf drwy Gymru i gyd!